Adeilad y Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ein Cyf: **3253253**

Ffôn / Tel: 0300 123 1590
E-Bost: PEDW.infrastructure@gov.wales
(gan ebost)

Dyddiad: 04/04/2025

Annwyl Syr / Madam

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) ('Deddf 1990')
Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016 (fel y'u diwygiwyd) ('y Rheoliadau DAC')
Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (fel y'i diwygiwyd) ('y Gorchymyn Gweithdrefn DAC')

Cais gan: Lighthouse BP
Cyfeiriad y safle: Tir yn Ystâd Pwer y Plas, i'r gogledd ac i'r de o Ffordd Ruthun, Wrecsam
Datblygiad arfaethedig: Adeiladu a gweithredu a chynnal gorsaf gynhyrchu trydan ffotofoltäig solar, Ynni Batri System Storio ("BESS"), gwrthdroyddion, trawsnewidyddion, ceblau, is-orsafoedd, traciau mynediad, tirlunio, ecolegol meysydd gwella a datblygiad ategol cysylltiedig.
Caniatâd eilaidd arfaethedig: Cydsyniad o dan adran 2(3) o Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (Rheoli gwaith sy'n effeithio ar henebion cofrestredig). Caniatâd ar gyfer llwybro ceblau tanddaearol, yn agos at Heneb Gofrestredig Clawdd Offa, gan gysylltu'r fferm solar arfaethedig i'r is-orsaf gynradd Legacy Awdurdodi o dan adran 247(1) o Ddeddf 1990 (gorchymyn awdurdodi stopio i fyny neu ddargyfeirio priffyrdd). Caniatâd i ddargyfeirio llwybr cyhoeddus #1178 BERSHAM 1 a llwybr troed #1159 BERSHAM 8.

1. Hysbysiad o dan adran 319B Deddf 1990 ynghylch y weithdrefn a ddefnyddir ar gyfer cynnal yr archwiliad hwn.

Mae'r Arolygydd wedi adolygu'r cais, a'r Adroddiad ar yr Effaith Leol a baratowyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, a'r holl sylwadau a gyflwynwyd erbyn terfyn amser y cyfnod ymgynghori. Ar ôl ystyried yn ofalus, mae wedi penderfynu y gall y cais fynd yn ei flaen yn ddigonol drwy'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig ac nad oes angen unrhyw sesiynau gwrandawiad neu ymchwiliad.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal yr Arolygydd rhag gofyn am ragor o wybodaeth yn ysgrifenedig, neu am eglurhad pellach, os yw'n ystyried bod hynny'n angenrheidiol. Yn

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.

ogystal, gall yr Arolygydd newid y weithdrefn ar unrhyw adeg yn ystod proses y cais, os bydd angen gwneud hynny.

2. Cais ffurfiol am ‘wybodaeth bellach’ gan y partïon a enwir yn Atodiad A o dan Reoliad 15(2) y Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) ac o dan Reoliad 24 y Rheoliadau Asesiadau o’r Effaith Amgylcheddol (AEA).

Ar ôl adolygu’r wybodaeth a gyflwynwyd, mae’r Arolygydd wedi penderfynu bod angen gwybodaeth bellach gan yr ymgeisydd a gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (fel yr awdurdod cynllunio lleol). Mae’r wybodaeth ofynnol wedi’i nodi yn Atodiad A i’r llythyr hwn a **rhaid ei chyflwyno cyn gynted ag y bo’n ymarferol ac o fewn 6 wythnos o ddyddiad y llythyr hwn, h.y. heb fod yn hwyrach na 16 Mai 2025.** Gall yr Arolygydd ofyn am wybodaeth bellach yn ddiweddarach hefyd os bydd yn penderfynu bod angen hynny.

Ar ôl derbyn y wybodaeth bellach hon, bydd Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) yn trefnu’r cyhoeddusrwydd ac yn cynnal yr ymgynghoriad angenrheidiol, a fydd yn digwydd dros gyfnod o 5 wythnos. Yn ystod y cyfnod hwn, derbynnir sylwadau sy’n ymwneud â’r wybodaeth sy’n destun y cais ffurfiol hwn.

3. Hysbysiad o dan Adran 62L(5) Deddf 1990 y bydd y cyfnod penderfynu yn cael ei atal dros dro.

Yn unol â’r canllawiau cyhoeddedig ar y broses DAC, mae PCAC yn atal y penderfyniad ar y cais dros dro er mwyn caniatáu amser i’r wybodaeth bellach gael ei chyflwyno, a chynnal cyfnod o 5 wythnos ar gyfer cyhoeddusrwydd ac ymgynghori.

Rwyf drwy hyn yn atal y cyfnod penderfynu ar y cais hwn am gyfnod o 12 wythnos. Bydd y cyfnod penderfynu yn ailddechrau **dydd Gwener 04 Gorffennaf 2025**.

Ar ôl ystyried amgylchiadau’r safle, mae’r Arolygydd wedi penderfynu ei bod yn debygol y bydd yn cynnal ymweliadau â’r safle ar ei ben ei hun. Os bydd hyn yn newid, a threfnir ymweliad yng nghwmni rhywun arall, ni chaniateir unrhyw drafodaeth ynghylch y cynnig yn ystod yr ymweliad â’r safle.

4. Nodyn gweithdrefnol

Ar ôl diwedd y cyfnod atal ar 4 Gorffennaf 2025, bydd y ffenestr deg diwrnod gwaith i'r ymgeisydd wneud cais i amrywio'r cynllun o dan Erthygl 27 o'r Gorchymyn Gweithdrefn DAC yn parhau.
Mae naw diwrnod gwaith eisoes wedi mynd heibio, felly mae un diwrnod gwaith ar ôl. Felly, y dyddiad cau newydd ar gyfer amrywio fydd 7 Gorffennaf 2025.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.

Yn gywir,

Nicola Bond

Name
Swyddog Achos

Atodiad A: Cais ffurfiol am ragor o wybodaeth o dan Reoliad 15(2) y Rheoliadau DAC ac o dan Reoliad 24 y Rheoliadau AEA

I'w chyflwyno erbyn 16 Mai 2025, fan bellaf

Gan yr Ymgeisydd

1. **Yr Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol**

a) Rhowch ymateb i Adran 9, Amwynder Gweledol a Chymeriad y Dirwedd, yn yr Adroddiad ar yr Effaith Leol a baratowyd gan y Cyngor, a'r casgliadau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol ac ar amwynderau preswyl.

b) Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw REPS010 dyddiedig 20 Mawrth 2025 ac mae'n mynegi pryderon ynghylch y cais oherwydd gwybodaeth annigonol ynglŷn â thirwedd ddynodedig Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, sef yr enw ar gyfer yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a ddynodwyd yn gyfreithiol. Rhowch y wybodaeth y gofynnir amdani yn y pwyntiau bwled ar dudalen 3, a ailadroddir yma er hwylustod:

   - Esboniad o'r gwaith plannu er lliniaru/integreiddio a gynigir i ymateb i olygfeydd o Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a'r effeithiau andwyol a nodwyd ar dderbynyddion o fewn yr ardal hon. Er mwyn cynorthwyo'r esboniad, mae CNC yn argymell ychwanegu anodiadau ar gyfer lleiniau caeau o fewn y safle at ffotogyfosodiad cyd-destunol ar wahân er mwyn galluogi croesgyfeirio haws rhwng y ddelwedd a'r Prif Gynllun Darluniadol.
   - Yn rhan o'r wybodaeth ychwanegol hon, dylid darparu cadarnhad os bwriedir plannu ar hyd ymylon gorllewinol lleiniau caeau E/F a beth yw cynnwys y plannu hwn.

c) Hefyd, mae CNC yn awgrymu y dylid darparu delweddau mwy eglur o'r ffotogyfosodiadau o VP10 a VP11. Mae'r Arolygydd yn gofyn am y ffotogyfosodiadau hyn mewn maint (graddfa) mwy i'w gynorthwyo wrth ystyried y cynnig. Yn ogystal, byddai o gymorth pe gellid darparu mapiau ar raddfa fwy (ar sail Arolwg Ordnans) yn dangos lleoliad pob golygfan.

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.

2. Bioamrywiaeth

a) Rhowch ymateb llawn ac ystyriol i Adran 13, Ecoleg a Bioamrywiaeth, yn yr Adroddiad ar yr Effaith Leol gan y Cyngor a'i gasgliadau

b) Rhowch ymateb llawn ac ystyriol i bryderon ynghylch coetir hynafol safle Coed Plas Power a choed hynod, a godwyd gan Coed Cadw yn ei sylwadau dyddiedig 27 Mawrth 2025 (REPS015).

3. Treftadaeth

Mae ymateb Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Clwyd-Powys yn codi mater yn ymwneud â llwybr Cebl y Gogledd, ac mae angen ymateb gan yr ymgeisydd.

4. System Storio Ynni Batris

a) Rhowch ymateb llawn ac ystyriol i bryderon a godwyd mewn nifer o sylwadau ynghylch lleoliad a diogelwch y System Storio Ynni Batris arfaethedig o ran risg tân. Codir y mater hwn yn arbennig gan Coed Cadw a chynghorwyr lleol.

b) Rhowch ymateb hefyd i sylwadau CNC ar lygredd posibl o ddŵr ffo pe bai tân yn digwydd yn y System Storio Ynni Batris, ac ar fesurau atal llygredd cyffredinol pe bai unrhyw gemegau'n gollwng ar y safle.

5. Diogelwch ar y Ffyrdd

Rhowch ymateb llawn ac ystyriol i'r amrywiaeth o faterion a godwyd yn Ymateb yr Awdurdod Priffyrdd i'r Ymgynghoriad, sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 4 yr Adroddiad ar yr Effaith Leol gan y Cyngor.

6. Amodau

a) Darparwch restr lawn a chytunedig o amodau a awgrymir yn achos pryderon a nodwyd, y gellir mynd i'r afael â nhw drwy amodau cynllunio, gan ystyried hefyd yr amodau a awgrymwyd yn yr Adroddiad ar yr Effaith Leol ac mewn sylwadau gan CNC ac unrhyw bartïon perthnasol eraill. Dylai'r ymgeisydd ystyried yr amodau a awgrymir yn gysylltiedig â madfallod dŵr cribog, atal llygredd, a'r amodau gwahanol a awgrymir ynghylch halogiad posibl y safle. Dylid cymharu'r olaf ag amodau a awgrymir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) ac amodau enghreifftiol yn y Cylchlythyr.

b) Dylai'r rhestr gynnwys rheswm dros bob amod sy'n cynnwys cyfeiriad at statud a/neu unrhyw bolisïau cenedlaethol perthnasol neu yn y cynllun datblygu lleol. Dylai'r ymgeisydd a'r partïon perthnasol sicrhau bod unrhyw amodau y cytunwyd arnynt yn bodloni'r holl brofion a nodir yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru (CLlC 016/2014) 'Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu'. Lle bo hynny'n berthnasol, rhowch sylwadaeth hefyd ynghylch i ba raddau y gallai amodau a awgrymir ddatrys pryderon a nodwyd, neu le na ellir dod i gytundeb ynghylch yr angen am amod neu ffurf yr

amod. Gweler isod hefyd, lle gofynnir i'r Cyngor/ACLl gysylltu â chi ynghylch yr amodau.

c) Cadarnhewch hefyd sut y bydd darpariaeth yr holl fesurau lliniaru arfaethedig a nodir yn y Datganiad Amgylcheddol (DA) yn cael ei sicrhau a'i chynnal (lle bo angen). Dylai hyn fynd i'r afael â sylwadau ymgyngoreion ac unrhyw amodau a Rhwymedigaethau Cynllunio sy'n angenrheidiol, yn enwedig paragraff 20.1 yr Adroddiad ar yr Effaith Leol.

d) Yn ogystal, mae amrywiaeth o ddatganiadau yn crybwyll nad yw'r cynlluniau wedi'u cwblhau a bod opsiynau gwahanol ar gyfer materion megis cysylltiad grid. Gofynnir sut y bwriedir rheoli'r materion hyn os rhoddir caniatâd cynllunio.

Nodiadau

Gofynnwn i chi gadarnhau os ydych yn cytuno â sylwadau CNC a'r amodau a awgrymir ganddynt, fel y manylir yn eu hymateb i'r ymgynghoriad.

Dylid cyflwyno pob gwybodaeth ychwanegol ar ffurf sy'n ei gwahaniaethu'n glir oddi wrth wybodaeth a gyflwynwyd eisoes.

Mae'n bosibl y bydd yr ymgeisydd yn dymuno manteisio ar y cyfle hwn i ymateb i bryderon eraill a godwyd, wrth ddarparu gwybodaeth ychwanegol i gynorthwyo'r Arolygydd wrth iddo ystyried y cynllun. Dylid darparu unrhyw wybodaeth o'r fath gyda'r wybodaeth y gofynnir amdani'n ffurfiol uchod. Bydd hyn yn galluogi rhoi'r un cyhoeddusrwydd ac ymgynghoriad i'r wybodaeth honno.

7. Cais am Ganiatâd Eilaidd – gorchymyn cau a dargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus yr effeithir arnynt

Mae sylwadau Uwch Swyddog Map Diffiniol y Cyngor wedi'u darparu ar wahân i'r Adroddiad ar yr Effaith Leol (gweler REPS006). Mae'n bosibl y bydd yr ymgeisydd yn dymuno ymateb i'r diwygiadau a awgrymir i'r Gorchymyn drafft.

8. Gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Awdurdod Cynllunio Lleol

a) Mewn adrannau amrywiol o'r Adroddiad ar yr Effaith Leol, deuir i gasgliadau y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effeithiau negyddol. Mae'n ofynnol i'r Cyngor esbonio'r sail ar gyfer y casgliadau hyn. Rhoddir rhai enghreifftiau isod:

Adran 11, Risg Llifogydd: dywedir nad yw'r cyngor wedi asesu'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd. Felly, beth yw sail y casgliad ar yr asesiad o effaith y cynnig ar y risg o lifogydd yn ystod y Cyfnod Adeiladu?

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.

Adran 14, Amwynder Preswyl a Chyhoeddus

Nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn darparu unrhyw dystiolaeth sylweddol ar gyfer herio casgliadau'r DA na fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol. Argymhellir y gellir mynd i'r afael â'r materion hyn trwy amodau. Serch hynny, daethpwyd i'r casgliad y byddai'r asesiad o'r effaith yn negyddol.

Adran 15, Archaeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol/Adeiledig

Beth yw sail yr asesiad negyddol o'r effaith ar dreftadaeth adeiledig, gan gyfeirio'n benodol at archaeoleg?

b) Gofynnir i chi ddarparu copi llawn o Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) Bwrdeistref Sirol Wrecsam (2013-2028) a Chynllun Datblygu Unedol Wrecsam (2006-2011), y cyfeirir atynt yn yr Adroddiad ar yr Effaith Leol, neu ddolen iddynt.

c) Darperir rhestr o amodau drafft a awgrymir yn adran 11 yr Adroddiad ar yr Effaith Leol. Nid yw Amod 2, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r datblygiad gael ei weithredu yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau a gyflwynwyd, yn nodi'r cynlluniau a'r dogfennau perthnasol. Mae'r rhesymau dros bob amod wedi'u rhoi; fodd bynnag, nid ydynt yn cyfeirio at unrhyw bolisïau cenedlaethol perthnasol neu yn y cynllun datblygu lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'w cynnwys. Felly, gofynnir i chi adolygu'r rhestr o amodau a awgrymir, gan gyfeirio at y profion sydd yn y Cylchlythyr, ac i ddarparu rhestr ddiwygiedig o amodau a awgrymir gyda rhesymau priodol sy'n cyfeirio at y polisi perthnasol. Gwelir uchod y gofynnwyd i'r ymgeisydd ddarparu rhestr gytunedig o amodau awgrymedig. Felly, byddai o gymorth pe gallech fynd i'r afael â'r materion uchod mewn cysylltiad â'r ymgeisydd.

9. Gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Gofynnir i CNC ddarparu sylwadau ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cysgodol a wnaed gan yr ymgeisydd. Mae hwn i'w weld yn Atodiad 6.7 y DA.

10. Gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Ymatebodd yr awdurdod yn ystod y cam cyn ymgeisio ym mis Mawrth 2024. Ymgynghorwyd yn ffurfiol â'r awdurdod ar y cais ar 17 Chwefror 2025 ond ni chafwyd ymateb. Mae angen cael sylwadau ar y cais, yn enwedig gan fod y cynnig bellach yn cynnwys System Storio Ynni Batris. Rhoddir sylw i faterion diogelwch tân ym Mhennod 2 y Datganiad Amgylcheddol a cheir Cynllun Rheoli Diogelwch Batris Amlinellol yn Atodiad 2.1 yng Nghyfrol 3. Gwahoddir eich sylwadau ar y ddogfen hon.

Mae'r cynllun hwn yn cynnig y bydd system cadw/cyfyngiant dŵr ar gyfer ymladd tân yn cael ei dylunio a'i gosod fel yr amlinellir yn y Strategaeth Ddraenio Gysyniadol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig (sef Atodiad 8.1 y Datganiad Amgylcheddol). Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn pryderu y dylai'r cyfleuster cyfyngiant dŵr fod o faint digonol i gynnwys dŵr a ddefnyddir mewn achos o dân, a allai gael ei halogi.

Mae CNC yn datgan:

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.

“Er mwyn atal llygredd, dylid sicrhau y bydd mesurau digonol ar waith ar gyfer cyfyngu neu waredu dŵr halogedig a ddefnyddiwyd i ymladd tân. Rydym yn argymell eich bod yn ceisio cyngor gan y Gwasanaeth Tân ac Achub perthnasol gan nad ni yw’r corff priodol i ddarparu cyngor ynghylch faint o ddŵr sydd ei angen mewn achos o dân, ac mae’r wybodaeth hon yn bwysig er mwyn pennu’r cyfyngiant sydd ei angen ar y safle. Dylid dangos cyn y gwneir penderfyniad bod y cynnig y gallu cynnwys dŵr tân a/neu y gellir dangos bod cludiant oddi ar y safle yn ymarferol, mewn ymgynghoriad ag ymgyngoreion eraill megis y gwasanaethau tân ac achub.”

Gwahoddir eich sylwadau ar yr agwedd hon ar y cynnig datblygu.

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.